Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Ystadegau Medr

# Cyllid sefydliadau addysg uwch 2023/24

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/12/2025 |
| **Dyddiad:** | 13 Mai 2025 (diweddarwyd ar 21 Mai 2025) |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Dadansoddiad o incwm a gwariant sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar gyfer 2023/24 |
| **Thema:** | Addysg Uwch |
| **Ffynhonnell:** | Cofnod Cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.


Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Nodyn:** Cafodd y naratif yn adran 'Gwariant' y cyhoeddiad hwn ei ddiweddaru ar 21 Mai 2025 er mwyn rhoi mwy o eglurder ynglŷn â graddfa'r addasiadau cyfrifyddu technegol nad ydynt yn ymwneud ag arian parod i ddarpariaethau pensiwn, a chostau ailstrwythuro nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gwariant sylfaenol. Rydym hefyd wedi cynnwys brawddeg i ddangos sut y bydd sefyllfa sylfaenol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn newid os caiff costau ailstrwythuro eu cynnwys. Nid yw'r diweddariad hwn yn effeithio ar y ffigurau a gyhoeddwyd yn wreiddiol.

# Incwm

- Adroddwyd fod cyfanswm incwm sefydliadau addysg uwch Cymru'n £1.98bn yn 2023/24, yr un faint ag yn 2022/23.

**Siart 1: Dadansoddiad o incwm sefydliadau addysg uwch Cymru**




- Fe gynyddodd incwm trwy ffioedd dysgu a chontractau addysg 5% i £1.11bn yn 2023/24. Roedd ffioedd dysgu a chontractau addysg yn rhoi cyfrif am 56% o incwm yn 2023/24.

- Roedd grantiau gan gyrff cyllido'n rhoi cyfrif am 14% (£276m) o incwm sefydliadau addysg uwch Cymru yn 2023/24. Gostyngodd incwm o grantiau gan gyrff cyllido 15% rhwng 2022/23 a 2023/24. Yn ogystal â chyllid gan Medr, gall grantiau gan gyrff cyllido gynnwys cyllid ar gyfer sefydliadau addysg bellach mewn grwpiau addysg uwch, a pheth cyllid arall gan Lywodraeth y DU a delir trwy Medr.

- Roedd grantiau a chontractau ymchwil yn 12% (£239m) o incwm sefydliadau addysg uwch Cymru yn 2023/24. Fe ostyngodd incwm o grantiau a chontractau ymchwil 12% rhwng 2022/23 a 2023/24.


## Gwariant

- Cyfanswm gwariant sylfaenol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2023/24 oedd £2.04bn, sydd 4% yn fwy na chyfanswm y gwariant sylfaenol yn 2022/23 (£1.96bn). Nid yw'r gwariant sylfaenol yn cynnwys addasiadau cyfrifyddu technegol nad ydynt yn ymwneud ag arian parod i ddarpariaethau pensiwn gwerth £380m (2022/23 – £73m) a fyddai, o'u cynnwys, yn lleihau cyfanswm y gwariant, gan roi adlewyrchiad ffug o gostau'r sector. Gwnaeth gwelliannau yn y farchnad ehangach gynyddu gwerth cynlluniau pensiwn, felly, yn 2023/24, roedd angen neilltuo llai ar gyfer newidiadau posibl yn y dyfodol. Nid yw'r gwariant sylfaenol ychwaith yn cynnwys costau ailstrwythuro o £16m (2022/23 – £1m) nad ydynt, wrth natur, yn rhan o wariant gweithredol rheolaidd.

- Sefyllfa weithredu sylfaenol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru (cyfanswm yr incwm llai cyfanswm y gwariant sylfaenol fel y'i diffinnir uchod) yn 2023/24 oedd diffyg o £61m (2022/23 – gwarged o £21m). Diffyg o £77m fyddai'r sefyllfa sylfaenol gan gynnwys costau ailstrwythuro (2022/23 – gwarged o £22m).

- Roedd cyfanswm gwariant sefydliadau addysg uwch Cymru (gan gynnwys addasiadau a chostau ailstrwythuro) yn 2023/24 yn £1.68bn, 11% yn is na ffigwr 2022/23, sef £1.89bn.

**Siart 2: Dadansoddiad o wariant sefydliadau addysg uwch Cymru**




- Roedd cynnydd o 6% mewn costau staff (heb gynnwys newidiadau i ddarpariaethau pensiwn ac addasiadau pensiwn) o £1.05bn yn 2022/23 i £1.11bn yn 2023/24. Nodyn: mae hyn yn wahanol i sut y mae'r data wedi cael ei ddarparu mewn fersiynau blaenorol o'r datganiad hwn lle'r oedd newidiadau i

ddarpariaethau pensiwn ac addasiadau pensiwn yn cael eu cynnwys gyda'r costau staff.

## Data

Mae ffigyrau 2023/24 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 ac mae ffigyrau 2022/23 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023.

Y ffigyrau ar gyfer 2022/23 yn y datganiad hwn yw'r gwerthoedd wedi'u hailddatgan a gasglwyd wrth gasglu cofnod cyllid 2023/24. Mae hyn yn golygu y gall ffigyrau 2022/23 fod yn wahanol i'r hyn a gyhoeddwyd yn flaenorol gan bod darparwyr yn gallu diwygio'r rhain os oes angen.

Gellir dod o hyd i'r data ar wefan Data Agored HESA sydd hefyd yn cynnwys data ar gyfer darparwyr unigol.

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gweler y ddogfen Ansawdd a methodoleg sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn am wybodaeth fanwl gan gynnwys diffiniadau.

### Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir mewn perthynas â dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

#### Dibynadwyedd

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'n polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

#### Ansawdd

Daw'r data o gofnod Cyllid HESA sy'n casglu data gan sefydliadau addysg uwch. Pan gyflwynir y data rhaid iddo fodloni rhai rheolau dilysu. Pan fo'r ystadegau'n cael eu cynhyrchu fe gynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

#### Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i incwm a gwariant sefydliadau addysg uwch Cymru.

## Ystadegau cysylltiedig

Cafodd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon eu cyhoeddi ar llyw.cymru.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir cyfeirio adborth, cwestiynau a cheisiadau am ragor o ddata trwy'r e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government